

B17: Gwers 3: Cestyll

Nod y Wers: Disgrifio prif nodweddion cestyll cerrig

Tasg 1: Cywir neu Anghywir

Adeiladwyd cestyll mwnt a beili yn ystod yr Oesoedd Canol	
Roedd yna drydan mewn cestyll	
Adeiladwyd ffos o gwmpas y castell er mwyn nofio ynddi	
Ystyr y gair 'mwnt' ydy tomen o bridd	
Nid oedd gan gestyll bontiau codi	

Dechreuwyd adeiladu cestyll cerrig yng Nghymru o gwmpas y flwyddyn 1100 ac roeddent yn llawer cryfach na'r hen gestyll mwnt a beili. Roedd waliau'r cestyll hyn wedi eu gwneud allan o gerrig ac yn ymyl y giat mynediad adeiladwyd y Barbican, sef twr uchel uwchben y giat oedd yn rhoi mynediad i'r beili. Yn lle ffens bren ar ben y domen o bridd, codwyd wal gerrig ac adeilad cerrig yn lle'r twr pren. Roedd rhai ohonyn nhw'n sgwar ond crwn oedd y rhan fwyaf. Y term a ddefnyddwyd am y cestyll hyn oedd 'gorthwr cerrig sgwar' achos ei siap.

Tasg 2: Dewiswch oleiaf chwech ansoddair i ddisgrifio'r llun isod o gastell Caernarfon e.e anferth



Tasg 3: Beth arall hoffech chi wybod am y cestyll hyn? Ysgrifennwch cwestiynau i ddarganfod mwy o wybodaeth am gestyll cerrig a chawn weld os gallwn eu hateb ar ddiwedd y wers. Cofiwch bod cychwyn cwestiwn yn dechrau gyda Ble, Pryd, Pwy, Pam, Sut e.e. Ble adeiladwyd y cestyll yma?

.....

.....

.....

.....

.....

Fel arfer roedd trwch y garreg tua 2 fetr a chawson nhw eu hadeiladu'n uchel iawn er mwyn dominyddu'r ardaloedd o'u hamgylch. Roedd hyn yn golygu bod gan y bobl y tu mewn i'r castell golygfa dda pe bai rhywun yn ceisio ymosod arnynt. Rhoddwyd ffenestri saethu yn y waliau fel y gallai'r amddiffynwyr (defenders) saethu saethau allan. Roedd y ffenestri hyn yn fach iawn ac felly roedd hi'n anodd i'r ymosodwyr (attackers) saethu saethau i mewn. Roedd y ffenestri saethu hyn yn uchel yn y waliau bob tro.

Adeiladodd y Normaniaid nifer mawr o'r cestyll hyn ledled y wlad. Mae rhai o'r gorthwyr cerrig sgwâr enwocaf i'w gweld hyd heddiw. Un o'r enwocaf yw'r Tŵr Gwyn yn Nhwr Llundain.



Roedd gan y castell cerrig sgwâr broblemau hefyd - y corneli oedd ei fan gwannaf. Sylweddolodd ymosodwyr yn fuan pe bydden nhw'n cloddio twneli dan y tir, gan ddefnyddio pren i'w propio, ar ôl cyrraedd y corneli gallen nhw losgi'r propiau a byddai sylfeini'r cestyll yn chwalu. Byddai hynny'n achosi i ddau wal syrthio ac yn caniatáu i'r ymosodwyr ruthro ar y castell. Y term a ddefnyddiwyd am hyn oedd tanseilio.

Tasg 4: Yn eich barn chi, beth oedd prif cryfderau a phrif gwendidau cestyll cerrig? Pam?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Geirfa

Ymosodwyr	<i>Attackers</i>
Syflaen	<i>Foundation</i>
Tanseilio	<i>Undermining</i>
Giat	<i>Gate</i>
Twr	<i>Tower</i>
Gwan	<i>Weak</i>

